

Atodiad F: Geirfa termau

| Term | Ystyr |
|---|---|
| Set Ddata Graidd Cymru Gyfan neu “pecyn data” | Mae 'Set Data Graidd Cymru Gyfan' (neu becyn data) yn darparu cyfres gyson a chytbwys o ddadansoddiadau cyd-destunol ar gyfer pob ysgol. Mae'n cynnwys Pecyn Cyd-destunol a Phecyn Perfformiad ar gyfer asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen, diwedd Cyfnod Allweddol 2 a diwedd Cyfnod Allweddol 3. Bwriedir i Set Ddata Craidd Cymru Gyfan gefnogi hunanwerthuso a gwella perfformiad ysgol, a llywio gwaith gydag Estyn, Swyddogion Gwella Awdurdodau Lleol a Chonsortia. |
| Consortia | Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi ymffurfio'n 4 grŵp rhanbarthol, a elwir yn gonsortia. Mae'r consortia hyn yn cydweithio i wella ysgolion. |
| Menter Cyfnewid Data Cymru (DEWi) | System drosglwyddo, dilysu ac adrodd ar ffeiliau diogel ar-lein. |
| Teuluoedd o Ysgolion | Grwpiau o ysgolion sy'n wynebu lefel gyfatebol o her ac sy'n gallu cydweithio i wella ysgolion yw teuluoedd o ysgolion. Mae teuluoedd wedi cael eu creu drwy grwpio ysgolion i gychwyn yn seiliedig ar faint a darpariaeth ieithyddol ac yna ym mhob grŵp lefel uchel, trefnir ysgolion mewn trefn ddisgynnol yn ôl gwerthoedd mynegai 'her'. Cyfrifir y mynegai hwn ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, lefelau amddifadedd, disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig a disgyblion, ac ati. Ystyrir bod ysgolion yn yr un teulu yn wynebu her gyffredinol sy'n debyg. |
| Prydau Ysgol am Ddim (FSM) | Ceir nifer o ffyrdd o nodi amddifadedd cymdeithasol, ond yr un sy'n cael ei derbyn yn fwyaf cyffredinol yw defnyddio data prydau ysgol am ddim (FSM) fel dangosydd. Yn fras, pan fydd lefelau disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn codi, mae lefelau perfformiad yn disgyn, er nad yw'r berthynas yn bendant ac mae rhai ysgolion yn gyson yn perfformio'n well nag eraill sydd â lefelau tebyg neu is o FSM. |
| Awdurdod Lleol (ALI) | Ceir 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu addysg mewn ysgolion a gynhelir, a gwella ysgolion. |

| | |
|-----------------------------------|---|
| Fy Ysgol Leol | Gwefan Llywodraeth Cymru yw Fy Ysgol Leol sy'n gwneud data perfformiad ysgol yn hygyrch, gan gynnwys i rieni ac eraill, megis disgyblion a llywodraethwyr. |
| Adroddiad Cymharol Ysgolion | Mae'r Adroddiad Cymharol Ysgolion yn darparu crynodeb o berfformiad ysgol ar ddiwedd asesiadau Cyfnod Sylfaen, diwedd Cyfnod Allweddol 2 a diwedd Cyfnod Allweddol 3, dros gyfnod o amser ac o'i gymharu â pherfformiad yr awdurdod lleol a Chymru ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Bwriedir iddo gefnogi hunanwerthuso a gwella perfformiad ysgol. Mae Adroddiad Cymharol Ysgolion ar gyfer Profion Cenedlaethol yn rhoi crynodeb o ganlyniadau profion ysgol o'u cymharu â'r awdurdod lleol a Chymru. Mae dyletswydd reoleiddiol ar ysgolion i gyhoeddi eu Hadroddiadau diweddaraf ar gyfer asesiadau a Phroffion Cenedlaethol yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr a'r Prosbectws Ysgol a'u rhoi i rieni gydag adroddiadau disgyblion. |
| Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) | Mae'r term AAA yn cyfeirio at blant sydd ag anawsterau dysgu neu anabledau sy'n galw am ddarpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer. Mae yna lefelau AAA gwahanol: gall disgyblion fod yn destun gweithredu gan yr ysgol, gweithredu gan yr ysgol a mwy neu gallant fod yn destun datganiad. Defnyddir polisïau AAA gwahanol mewn awdurdodau lleol gwahanol ac felly nid oes dull cyson o nodi lefel yr angen. O'r herwydd, lle ceir cymariaethau er mwyn grwpio ysgolion yn Deuluoedd, y rhai sy'n destun datganiad a gweithredu gan yr ysgol a mwy yn unig sy'n cael eu defnyddio. |
| Cyfnod Sylfaen (CS) | Y Cyfnod Sylfaen yw cam cyntaf Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru. Mae'n cynnwys dysgu 3 i 7 oed (mae dysgu rhwng 3 a 4 oed mewn meithrinfeydd yn anstatudol), mewn ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd. |
| Cyfnod Allweddol (CA) | Mae Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 yn dilyn y Cyfnod Sylfaen fel y tri chyfnod arall yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru. |